Gellir cael copi o'r Hysbysiad hwn mewn print bras gan Lywodraeth Cymru, Trafnidiaeth, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Ffordd Osgoi Wrecsam (Cyffordd 2 – Cyffordd 6), Wrecsam) (Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro) 201-

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan Adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ymhen dim llai na saith niwrnod ar ôl dyddiad yr Hysbysiad hwn.

Mae angen y Gorchymyn arfaethedig er mwyn diogelwch defnyddwyr y ffyrdd a'r gweithlu tra gwneir gwaith cynnal a chadw a gwaith trwsio mewn mannau ar Gefnffordd Abertawe – Manceinion (yr A483) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") rhwng Cyffyrdd 2 a 6 o Ffordd Osgoi Wrecsam ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.

Disgwylir y bydd y cyfyngiad canlynol, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn dod i rym am 19:00 o'r gloch ar 21 Tachwedd 2011 a bydd yn parhau mewn grym tan 06:00 o'r gloch ar 9 Rhagfyr 2011 neu nes bydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n barhaol.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd gosod terfyn cyflymder dros dro o 40 mya ar y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt y drosbont wrth Gyffordd 2 i ganolbwynt y danbont wrth Gyffordd 6.

Disgwylir y bydd y Gorchymyn yn weithredol yn ystod y dyddiadau a bennir uchod yn unig, er hynny bydd yn parhau i fod yn ddilys am gyfnod o 6 mis ar y mwyaf ac yn parhau wrth gefn pe bai angen aildrefnu'r gwaith neu pe bai angen gwneud gwaith canlyniadol oherwydd amgylchiadau nas rhagwelwyd.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Welsh Government, Transport, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

The A483 Trunk Road (Wrexham Bypass (Junction 2 – Junction 6), Wrexham) (Temporary 40 mph Speed Limit) Order 201-

NOTICE IS HEREBY GIVEN that the Welsh Ministers propose, in not less than 7 days from the date of this Notice, to make an Order under Section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The proposed Order is necessary to ensure the safety of road users and the workforce whilst maintenance and patching works are undertaken on the Swansea – Manchester Trunk Road (A483) (hereinafter referred to as "the trunk road") between Junctions 2 and 6 of the Wrexham Bypass in the County Borough of Wrexham.

The following restriction, the extent of which will be signed accordingly, is expected to come into force at 19:00 hours on 21 November 2011 and will remain in force until 06:00 hours on 9 December 2011 or until the temporary traffic signs have been permanently removed.

The effect of the proposed Order will be to impose a temporary 40 mph speed limit along the length of the trunk road which extends from the centre-point of the over-bridge at Junction 2 to the centre-point of the under-bridge at Junction 6.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 6 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential work is required due to unforeseen circumstances.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE